Rygbi

Yn ddiweddar bues i yn chwarae rygbi i dim plant dan 8 Aberystwyth lawr yn Noc Penfro. Roedd yn daith hir ar y bws ond fe wnes i fwynahu y profiad o chwarae. Cit glas, gwyn a du roeddwn yn gwisgo a cit gwyn a du oedd gan y tim arall. Y sgôr ar y diwedd oedd 5-0 i ni. Roedden ni wedi ennill. Hwre!

John James

Drama

Daeth cwmni drama "West Midlands" i berfformio drama "Treasure Island" i'r dosbarthiadau Iau. Mwynhawyd yn fawr.

Celf a Chrefft

Aeth pymtheg o blant o ddosbarth Mr John i Ganolfan y Celfyddydau am y dydd i gael profiad creadigol o lunio rhywbeth arbennig. Cawsant ddiwrnod wrth eu bodd.

Dawns

Profiad gwahanol gafodd y Babanod pan ddaeth aelod o grŵp dawns "Diversions" i gynnal sesiwn o ddawns creadigol gyda hwy. Cafwyd ymateb da iawn gan y rhai bach.